



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

13/03/2020

Coronafeirws

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn dilyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, cynghorir pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin fel mesur rhagofalus i ohirio pob digwyddiad nad yw'n hanfodol ar raddfa fawr lle mae rhyngweithio rhwng staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. O ganlyniad, rydym wedi cymryd y penderfyniad i beidio brwsio dannedd yn y Cyfnod Sylfaen a gohurio pob trip sydd wedi'i gynllunio yn y dyfodol agos hyd at Pasg.

Rydym yn sylweddoli bod pryder ynghylch y Coronafeirws Newydd (COVID-19). Gallwn eich sicrhau fel rhieni a disgyblion ein bod yn parhau i dderbyn cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n bod yn cymryd pob cam priodol i atal y feirws rhag lledaenu.

Gellir dod o hyd i gyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

yma: <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>

neu trwy wefan yr ysgol <https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/coronafeirws-coronavirus/>

Rydym yn gwerthfawrogi cydweithrediad disgyblion a rhieni i helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Hylendid da yw'r ffordd orau o'u hatal ac mae rhai camau syml y gallwch eu cymryd i'ch diogelu chi a'ch teulu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Golchi dwylo'n aml gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad, neu ddefnyddio diheintydd dwylo sy'n cynnwys o leiaf 60% alcohol os nad oes sebon a dŵr ar gael.
- Ceisio osgoi cyffwrdd â'r llygaid, y trwyn a'r geg os nad ydych wedi golchi eich dwylo.
- Defnyddio hances bapur i orchuddio eich ceg a'ch trwyn wrth beswch neu disian, ac yna ei thaflu i'r bin cyn golchi eich dwylo'n syth.

Beth i'w wneud os oes gennych symptomau Coronavirus?

Dylech aros gartref am 7 diwrnod os oes gennych naill ai:

- tymheredd uchel – 37.8 gradd neu'n uwch
- Peswch parhaus newydd

Peidiwch â mynd i feddygfa meddyg teulu, fferyllfa nac ysbyty. Nid oes angen i chi gysylltu â 111 i ddweud wrthyn nhw eich bod chi'n aros gartref.

Os oes angen i chi aros gartref dilynwrch gyngor hunan ynysu'r GIG.

Ni ddylech gysylltu â 111 oni bai:

- rydych chi'n teimlo na allwch chi ymdopi â'ch symptomau gartref
- mae eich cyflwr yn gwaethygu
- nid yw'ch symptomau'n gwella ar ôl 7 diwrnod

Mr C Davies Pennaeth

